# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa Traed Bach**

**Yr Hen Lyfrgell**
**Stryd Yr Aradr**
**Llanrwst**
**LL26 0AG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Manually Insert Date**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Nia Roberts yw unigolyn cyfrifol a Natalie Speiser yw'r person â chyfrifoldeb yn Meithrinfa Traed Bach Cyf. Cynhelir y gwasanaeth yng nghanol tref Llanrwst yng Nghonwy. Mae wedi ei gofrestru i ofalu am uchafswm o 42 o blant o dan 12 oed. Yr oriau agor yw 8:00 am – 18:00 pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at y "Cynnig Rhagweithiol" Cymraeg ac mae'n gweithredu'n ddwyieithog.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Mae'r staff yn gyfeillgar ac maent yn defnyddio dull addfwyn a gofalgar. Mae'r amgylchedd dan do wedi'i addurno'n lliwgar mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae'r ardaloedd awyr agored yn cynnig cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol yn yr awyr iach. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol.

### 2. Gwelliannau

Mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud ers yr arolygiad diwethaf gan fod yr arweinwyr wedi cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod cofnodion y plant yn cynnwys manylion cyswllt eu meddyg teulu, mae defnydd gwell o staff yn ystod amseroedd bwyd wedi arwain at gyfoethogi profiadau'r plant yn ystod yr amser cymdeithasol hwn, mae'r mownt newid cewynnau wedi cael ei atgyfnerthu ac mae rhwystr diogelwch wedi cael ei brynu. Mae'r system awyru yn cael ei monitro, mae gwyntyll wedi cael eu prynu ar gyfer pob ystafell ac mae asesiad risg wedi cael ei ysgrifennu. Mae arwyneb newydd wedi cael ei rhoi ar y grisiau awyr agored ac mae eiddo personol staff ac annibendod cyffredinol wedi cael eu clirio o'r ardal newid cewynnau. Mae drws cegin newydd wedi cael ei brynu i wella diogelwch, mae peiriannau cyflenwi sebon hylif ar gael i blant eu defnyddio'n annibynnol, mae driliau tân yn cael eu cynnal yn fwy rheolaidd ac mae'r staff yn tynnu sylw'r rhieni at bwysigrwydd dod â dyddiadur dyddiol eu plentyn i mewn. Mae un o'r ardaloedd chwarae awyr agored wedi gwella gyda gwaith celf y plant yn cael ei arddangos ar y tŷ chwarae pren ac mae blodau wedi cael eu plannu er mwyn helpu'r plant i ddysgu am y byd naturiol.

Ers yr arolygiad hwn, mae'r person â chyfrifoldeb wedi cyflwyno datganiad o ddiben llawer gwell i Arolygiaeth Gofal Cymru, wedi diweddaru ffeil un aelod o staff i gynnwys ffurflen datganiad o iechyd ac mae wedi'i fodloni ar addasrwydd dau aelod arall o'r staff ar ôl gweld eu tystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â chynnig mwy o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau hunangymorth y plant, adolygu'r arferion golchi dwylo, diweddaru'r datganiad o ddiben i gynnwys gwybodaeth fanylach, ffurfioli trefniadau goruchwylio un i un, gostwng lefel mannau storio er mwyn i'r babanod gael gafael ar deganau yn haws a gosod hysbysiad / nodyn atgoffa i'r staff ynglŷn â'r weithdrefn i ddiogelu drws y gegin.

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn bodloni gofynion cyfreithiol o ran ffeiliau staff am nad oeddent yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Felly, rydym wedi tynnu sylw'r unigolyn cyfrifol at y maes hwn i'w wella.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae gan y plant yr hyder i leisio barn a gwneud ceisiadau. Maent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol sy'n rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau ac â'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Maent yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn gadarnhaol. Fodd bynnag, dylid ystyried cynnig mwy o gyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau hunangymorth.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus.

Roedd y plant yn siarad yn hyderus â'u ffrindiau, y rheini sy'n gofalu amdanynt a ni. Gwnaethant ofyn i ni am ein henwau a holi am yr hyn roeddem yn ei wneud. Dywedodd un plentyn wrthym pan fydd yn deffro yn y bore ei fod yn dweud *“Hooray, it’s Traed Bach today”.* Gofynnodd un plentyn yn gwrtais a fyddai'r staff yn gallu ei helpu gyda charrai ei esgidiau a gwnaeth aelod o staff helpu ar unwaith. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau mynychu a'u bod yn hoffi chwarae yn yr awyr agored a phaentio. Gofynnwyd i blentyn a fyddai'n hoffi lliwio ond atebodd “*Na*”. Parchwyd hyn gan y staff a dewisodd y plentyn chwarae gyda'r garej yn lle hynny. Yn ystod prydau bwyd, gwnaeth y plant geisiadau am fwy o fwyd a diod a rhoddwyd y rhain iddynt yn ddi-gwestiwn.

Darperir gofal i'r plant sy'n eu galluogi i leisio barn a mynegi eu hunain yn gadarnhaol.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel.

Roedd y plant yn hapus ac yn mynd at y staff yn hawdd i siarad â nhw, gwneud ceisiadau neu pan roeddent eisiau mwythau am sicrwydd. Roeddent yn cael canmoliaeth am eu hymdrechion drwy gydol y dydd. Er enghraifft, dywedodd y staff “*Da iawn*” wrth ddau blentyn iau am chwarae'n dda gyda'i gilydd gyda'r tegan carwsél sw. Gwnaeth un plentyn gais am botel o lefrith wrth eistedd mewn bygi yn barod i gysgu, a rhoddwyd hyn i'r plentyn yn garedig gan aelod o'r staff. Gwnaeth hyn wneud i'r plentyn deimlo'n ddiogel. Gan fod y trefniadau amser cinio wedi gwella a'r staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar yr adeg hon o'r ddydd, gwelwyd fod y plant yn mwynhau'r achlysur cymdeithasol hwn. Gwnaethant fwyta ac yfed yn dda ac roeddent yn hapus.

Defnyddir dull cynnes a gofalgar gyda'r plant sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn dysgu sut i rannu ac aros eu tro.

Roedd y plant yn dysgu sut i gydweithredu a helpu ei gilydd. Gwelsom blant iau yn helpu ei gilydd i lenwi'r cynwysyddion o wahanol faint â thywod yn yr hambwrdd tywod. Dechreuodd un plentyn gerdded i ffwrdd o'r hambwrdd gyda chynhwysydd yn llawn tywod. Pan eglurodd y staff yn dyner i'r plentyn i ddod ag ef yn ôl, rhag ofn iddo arllwys dros y llawr, gwnaeth y plentyn gydweithredu. Roedd y plant yn dysgu pwysigrwydd rhannu, er enghraifft, gwelsom y plant yn aros yn amyneddgar i'w ffrindiau orffen chwarae rôl gyda'r gwisgoedd eira wen a'r ddraig goch fel y gallent hwy gael tro yn gwisgo i fyny.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i'w helpu i ddysgu am ryngweithio cadarnhaol i feithrin cyfeillgarwch.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu.

Roedd y plant yn mwynhau chwarae gyda detholiad o anifeiliaid fferm. Roeddent yn chwerthin wrth i'r aelod o staff ofyn iddynt pa sŵn mae'r mochyn yn ei wneud a gwnaethant ateb "*oink oink*". Roedd y plant yn fynegiannol wrth chwarae ac roeddent yn mwynhau gwneud sŵn trên wrth iddynt chwarae gyda *Tomos y Tanc.* Roedd y plant iau yn baldorddi wrth ddetholiad o ffigurau byd bach wrth iddynt eu gosod mewn rhes ar fraich y soffa. Gwelsom fod un plentyn am chwarae yn y gornel cartref gyda'r gegin ond nid oedd unrhyw bropiau cysylltiedig wedi'u rhoi allan. Ar ôl i ni ofyn i'r staff, gwnaethant roi blwch o bropiau ar y llawr ac ymestynnodd y plentyn am y sosbannau a'r tebot a'u rhoi ar y pentan. Gwnaeth y plentyn ddangos i ni sut roedd wedi gwneud pizza, gan ddangos y sleisiau pizza tegan mewn padell. Roedd y plant yn mwynhau creu cymeriadau gwahanol gydag amrywiaeth o ategolion adeiladu. Cawsant hwyl hefyd yn arbrofi gyda chyflymder a mudiant wrth chwarae gyda detholiad o gerbydau a garej. Dangosodd un plentyn i ni sut y gallai'r tryc tancer glas symud yn gyflym o dan y bwrdd a'r gadair. Gwelwyd y plant eraill yn tynnu lluniau yn ofalus ac yn cael cymorth i ysgrifennu eu henwau ar fyrddau sialc. Dywedodd un plentyn wrth ei ffrind ei fod yn tynnu llun o "*Taid*". Gwenodd ei ffrind. Roedd y plant iau yn mwynhau chwarae gêm gyda sgitls tedis meddal a chawsant hwyl yn eu bwrw i lawr. Roedd y plant yn mwynhau'r gweithgareddau gwneud marciau ac roeddent yn awyddus i ddangos paent neon lliwgar i ni roeddent yn ei ddefnyddio i brintio gyda riliau cotwm. Wrth chwarae yn yr awyr agored, roedd y plant yn datblygu eu sgiliau echddygol corfforol yn yr awyr iach. Gwnaethant fwynhau pedlo'r treiciau a'r ceir o amgylch yr ardal chwarae. Roedd y plant eraill yn chwarae "*What's the time Mr Wolf*?" gyda'r plant eraill yn mwynhau'r chwarae hwn drwy eistedd a gwylio eu ffrindiau.

Darperir amrywiaeth o weithgareddau i'r plant i'w cadw'n egnïol a chadw eu diddordeb yn eu dysgu drwy chwarae.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn gadarnhaol.

Roedd y plant yn mwynhau archwilio eu hardal chwarae o'u gwirfodd a dewis y gweithgareddau roeddent am chwarae â nhw. Aethant i'r toiledau yn annibynnol a golchi eu dwylo ar eu pen eu hunain am eu bod yn gallu cael gafael ar y peiriannau cyflenwi sebon a thywelion papur yn hawdd. Roedd y plant iau yn mwynhau eistedd ar y soffa ar eu pen eu hunain i ddarllen llyfrau meddal a chwarae gyda thegan meddal. Yn ystod prydau bwyd a byrbrydau gweinwyd y bwyd a'r diod i'r plant. Gwnaethom siarad â'r staff am greu cyfleoedd i'r plant helpu eu hunain am y byddai hyn yn helpu i ddatblygu eu sgiliau hunangymorth. Dangosodd un plentyn i ni sut y gallai wisgo ei esgidiau ei hun a wnaeth iddo wenu am ei fod yn gallu cwblhau tasgau ei hun.

Mae'r plant yn cael gofal sy'n hyrwyddo eu dysgu a'u datblygiad ond gellid ystyried hyrwyddo eu sgiliau hunangymorth ymhellach.

## 2Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae gan y staff wybodaeth briodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rheoli'r rhyngweithio mewn ffordd dawel ac amyneddgar. Mae'r staff yn hwyluso gweithgareddau diddorol i ddatblygu dysgu'r plant drwy chwarae ac maent yn ymateb i'w hanghenion unigol.

### Ein canfyddiadau

#### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn hyrwyddo arferion iach ond gellid ystyried adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer golchi dwylo.

Pan wnaethom ofyn i'r staff am ddiogelu, roeddent yn hyderus am y camau y byddent yn eu cymryd os byddent yn poeni am blentyn yn eu gofal ac roeddent yn deall y polisi diogelu ar gyfer y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r manylion cyswllt yn y polisi hwn. Roedd y staff wedi cofnodi a chynnal driliau tân rheolaidd er mwyn sicrhau bod y plant a'r staff yn gwybod beth i'w wneud pe baent yn gorfod gadael y safle yn gyflym mewn argyfwng. Roedd y staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ar y cyfan drwy hyrwyddo arferion iach. Er enghraifft, clywsom y staff yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn cinio ac ar ôl mynd i'r toiled. Gwelsom y plant yn golchi eu dwylo yn y sinc ond gyda'r un dŵr a ddefnyddiwyd gan eu ffrind. Gwnaethom egluro i'r staff nad oedd hyn yn cydymffurfio â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) a byddai angen iddynt adolygu'r arfer hwn i ddileu'r risg o groeshalogi. Gwnaethom arsylwi ar y trefniadau newid cewynnau ac roedd hyn yn unol â'r canllawiau rheoli heintiau. Gwnaeth y staff siarad â phob plentyn yn dyner wrth newid cewynnau a oedd yn gwneud i'r plentyn deimlo'n gysurus ac wedi setlo. Gwnaethom siarad â'r staff am sicrhau bod biceri / diodydd o ddŵr y plant ar gael iddynt drwy gydol y dydd fel y gallent gael diod pan oeddent yn sychedig a hydradu. Gwnaeth y staff sicrhau bod y plant yn bwyta'n iach a rhoddwyd pryd maethlon poeth iddynt amser cinio. Ym mis Hydref 2017 cawsant sgôr hylendid bwyd o 5 (da iawn) gan asiantaeth safonau bwyd Conwy. Roedd y staff yn hyrwyddo iechyd da drwy wneud yn siŵr bod y plant yn cael digon o gyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored yn yr awyr iach.

Yn gyffredinol mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw plant yn ddiogel.

#### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio mewn ffordd dawel ac amyneddgar.

Roedd y staff yn fodelau rôl o ymddygiad da eu hunain ac roeddent yn annog y plant i fod yn gwrtais. Yn ystod gweithgareddau gwelsom fod y staff yn helpu'r plant i ddeall pwysigrwydd cymryd eu tro a bod yn garedig i'w gilydd. Er enghraifft, gwnaethant eu haddysgu i gymryd eu tro wrth ddefnyddio'r llieiniau i lanhau'r byrddau sialc ac wrth wisgo i fyny gyda detholiad o wisgoedd. Gwnaethant hyrwyddo rhyngweithio da drwy ddefnyddio iaith gadarnhaol a dathlu a gwobrwyo plant gyda chlod, gwenu a mwythau.

Mae'r staff yn defnyddio strategaethau cadarnhaol i reoli rhyngweithio gan arwain at ymddygiad derbyniol a chwrtais gan y plant.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn hyrwyddo dysgu'r plant drwy chwarae ac maent yn ymateb yn dda i'w hanghenion unigol.

Gwnaeth y staff arwain gweithgareddau diddorol i'r plant, gan weithredu rhai o'r egwyddorion o gwricwlwm y cyfnod sylfaen er mwyn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Gwnaethant hwyluso gweithgareddau adrodd stori o ansawdd da er mwyn helpu'r plant i ddatblygu eu sgiliau iaith a geirfa a'u hannog i holi ac ateb cwestiynau. Gwnaeth y staff annog y plant i ymarfer ysgrifennu llythrennau a rhifau drwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau gwneud marciau drwy baentio a defnyddio byrddau sialc. Gwnaethant ymgysylltu â'r plant yn gadarnhaol drwy gydol eu gweithgareddau, gan ddarparu cymorth ychwanegol pan roedd ei angen. Roedd y staff yn ymateb i anghenion y plant, er enghraifft, pan nad oedd plentyn iau am gysgu gwnaethant chwarae gêm o bêl-droed gyda phêl feddal y gwnaeth y plentyn ei fwynhau. Roeddent yn llawn bywyd wrth iddynt ganu hwiangerddi Cymraeg a Saesneg ac roeddent yn annog y plant i gymryd rhan. Er enghraifft, roedd y plant yn mwynhau canu "*Wheels on the bus*" a symud eu cyrff wrth ganu.

Mae'r staff yn hwyluso gweithgareddau priodol i ddatblygu dysgu'r plant drwy chwarae ac maent yn ymateb i'w hanghenion unigol.

# 3Yr Amgylchedd

## Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod teganau ac adnoddau ar gael i'r plant sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu.

## Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Gwelsom fod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn addas at y diben. Roedd gan yr arweinwyr system ar gyfer rheoli mynediad i'r safle ac roedd cofnod o ymwelwyr yn cael ei gadw. Roedd teledu cylch cyfyng ar waith drwy'r safle. Roedd prynu drws stabl cegin newydd yn golygu y gellir cloi rhan isaf y drws i atal mynediad diawdurdod tra'n gadael yr hanner uchaf ar agor i awyru'r gegin. Gwnaethom ofyn i'r arweinwyr arddangos hysbysiad yn y gegin fel bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i gadw'r drws yn ddiogel os na fyddai'r cogydd yno. Mae awyru yn broblem barhaus. Ar ddiwrnod yr arolygiad roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod gwyntyll yn gweithio ym mhob ystafell ac roedd y rhain wedi'u gosod yn ddiogel. Mae asesiad risg wedi cael ei ysgrifennu hefyd i sicrhau bod y plant yn gallu oeri a hydradu ar ddiwrnodau cynnes. Mae lliain gwyn mawr hefyd wedi cael ei osod ar y to gwydr i warchod rhag golau'r haul. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau a gwnaethant oruchwylio'r plant yn dda yn ystod gweithgareddau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac y caiff y staff eu defnyddio mewn ffordd sy'n rhoi goruchwyliaeth briodol i sicrhau diogelwch y plant.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y safle yn addas.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd cyfforddus a chefnogol. Roedd wedi'i addurno'n lliwgar mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn a oedd yn helpu i greu ymdeimlad o ddiogelwch ac o berthyn. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael croeso drwy wneud yn siŵr bod ganddynt eu gofod penodedig eu hunain i storio eu heitemau personol. Gan na allai'r plant gyrraedd y blychau teganau yn yr ystafell fabanod, gwnaethom ofyn i staff ystyried cynnig mwy o ddewis o chwarae a dysgu drwy osod rhai o'r blychau ar y llawr/o fewn cyrraedd. Roedd y dodrefn yn briodol ar gyfer cam a datblygiad y plant ac roedd yr amgylchedd yn cynnig cyfleoedd chwarae priodol. Roedd gofod penodedig i staff storio eu heiddo personol a swyddfa addas iddynt gynnal sgyrsiau cyfrinachol. Roedd yr arweinwyr wedi gwella'r ardal newid cewynnau drwy gryfhau'r uned newid cewynnau gyda choesau metel a phrynu rhwystr diogelwch newydd. Roedd yr ystafelloedd chwarae wedi'u haddurno'n lliwgar gyda gwaith celf â thema o eiddo'r plant. Er enghraifft, y thema gyfredol oedd y sw ac roedd y plant wedi lliwio a thorri mwncïod allan i hongian fel baneri i addurno'r ystafell. Roeddent hefyd wedi creu pennau jiráff drwy ddefnyddio printiau llaw a phaentio'r llygaid a'r smotiau gyda'u bysedd.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod digon o ofod a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant a chaiff eu gwaith celf eu harddangos i greu ymdeimlad o berthyn.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod teganau ac adnoddau ar gael i'r plant sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu.

Roedd digon o adnoddau ar gyfer chwarae dan do ac yn yr awyr agored ar gael i sicrhau bod gan y plant amrywiaeth a dewis. Roedd rhai adnoddau amlddiwylliannol a chyfeiriadau at ardaloedd lleol er mwyn helpu'r plant i ddysgu am eu cymdeithas a'u cymuned ehangach. Mae hwn yn faes y gellid ei ddatblygu ymhellach i ymestyn dealltwriaeth y plant o ble maent yn byw a'r byd o'u hamgylch. Mae angen i'r arweinwyr sicrhau bod propiau cysylltiedig ar gael i'r plant eu defnyddio yn y cornel cartref. Er enghraifft, dangosodd un plentyn y peiriant golchi i ni ond nid oedd unrhyw ddillad ynddo i ddatblygu chwarae dychmygus. Roedd yr adnoddau a'r cyfarpar i'r plant o ansawdd da ac roedd y paentiau a ddefnyddiwyd yn gyfoethog ac yn lliwgar.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant ofod i symud o gwmpas heb gyfyngiadau a bod amrywiaeth o weithgareddau diddorol ar gael iddynt er mwyn hyrwyddo eu dysgu. Byddai ystyried darparu propiau cysylltiedig yn y gornel cartref ymhellach yn helpu i ddatblygu chwarae rôl a dychymyg y plant.

## 4.Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol. Mae ganddynt system i werthuso'r gwasanaeth er mwyn sicrhau y caiff canlyniadau cadarn eu cyflawni ar gyfer y plant. Mae'r arweinwyr wedi meithrin tîm effeithiol o staff sy'n cydweithio'n dda. Maent wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol.

Roedd datganiad o ddiben ar gael ond roedd angen ei ddiwygio i gynnwys y wybodaeth angenrheidiol. Gwnaethom argymell eu bod yn darparu mwy o wybodaeth o dan bob pennawd fel yr amlinellir yn safon un o'r safonau gofynnol cenedlaethol fel bod rhieni yn cael gwybodaeth ddigonol er mwyn iddynt wneud dewis gwybodus am y gwasanaeth. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr arweinwyr. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ac roedd y rhain wedi cael eu hadolygu. Roedd yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol. Roeddent wedi gweithredu i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd yn yr arolygiad blaenorol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn gadarnhaol er mwyn sicrhau bod y canlyniadau i'r plant yn gwella.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr wedi cwblhau adolygiad cynhwysfawr sy'n adolygu ansawdd y gofal.

Mae'r arweinwyr wedi gwerthuso'r gwasanaeth a defnyddio sylwadau'r plant, y staff a'r rhieni i ysgrifennu adroddiad cynhwysfawr ar ansawdd y gofal. Maent hefyd wedi canolbwyntio ar yr argymhellion a wnaed yn yr arolygiad diwethaf ac wedi tynnu sylw at ba gamau a gymerir. Mae hyn wedi bod yn gadarnhaol gan fod safonau'r gwasanaeth wedi gwella gan arwain at ganlyniadau gwell i'r plant.

Mae gan yr arweinwyr system i werthuso'r gwasanaeth i sicrhau y caiff canlyniadau cadarn eu cyflawni i'r plant.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr wedi meithrin tîm effeithiol o staff sy'n cydweithio'n dda.

Mae'r arweinwyr bellach yn defnyddio'r staff yn effeithiol i sicrhau bod y profiad adeg prydau bwyd i'r plant yn werthfawr. Mae hyn yn welliant sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Gwnaethom edrych ar ffeiliau tri aelod o'r staff a gwelsom nad oeddent yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r gofynion. Ni wnaethom gyflwyno

hysbysiad ar yr achlysur hwn gan nad oedd y mater hwn yn cael unrhyw effaith andwyol ar lesiant na diogelwch y plant. Rydym wedi tynnu sylw'r unigolyn cyfrifol at hyn fel y gall fynd i'r afael â'r mater. Gwnaethom edrych ar gofnodion tri phlentyn ac roedd gan y rhain yr holl wybodaeth ofynnol. Gwnaethom siarad â'r staff a dywedwyd wrthym fod goruchwyliaeth yn anffurfiol a gallant fynd at y person â chyfrifoldeb ar unrhyw adeg i gael cymorth. Gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol ynglŷn ag ystyried ffurfioli goruchwyliaeth un i un fel bod cofnod ysgrifenedig o ddatblygiad proffesiynol staff a bod unrhyw anghenion hyfforddiant yn cael ei nodi i wella ymarfer. Roedd arfarniadau wedi cael eu cynnal ac roedd y rhain wedi'u cofnodi.

Mae'n hawdd mynd at yr arweinwyr ac maent y cydnabod meysydd i'w hystyried ar gyfer gwella.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni.

Gwnaethom siarad â'r rhieni a dywedwyd wrthym pa mor hapus roeddent gyda'r gwasanaeth. Dywedodd un rhiant wrthym fod cyfathrebu â'r staff yn "*dda*" a dywedodd rhiant arall fod y gwasanaeth yn "*ffantastig*" ac nad oedd yn gwybod beth fyddai'n ei wneud hebddo. Dywedodd y rhieni wrthym fod y plant yn hapus ac wedi setlo. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn annog y rhieni i ddod â dyddiadur eu plentyn i mewn iddynt, er mwyn iddynt allu ei gwblhau yn ddyddiol gan nodi cynnydd a datblygiad eu plentyn.

Mae'r arweinwyr ym Meithrinfa Traed Bach Cyf yn gweithio'n effeithiol â rhieni i sicrhau bod y canlyniadau i'r plant yn gadarnhaol.

## Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Gwnaethom hysbysu'r unigolyn cyfrifol nad oedd yn cydymffurfio â'r rheoliad canlynol. Ni wnaethom gyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfiaeth gan na wnaethom ddod o hyd i dystiolaeth fod hyn yn cael effaith ar lesiant na diogelwch y plant ar yr achlysur hwn. Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r mater hwn.

- **Rheoliad 28 o *Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010* ("Rheoliadau 2010"): Addasrwydd gweithwyr:** nid oedd yr unigolyn cyfrifol yn gallu dangos tystiolaeth fod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i choladu er mwyn bodloni ei hun bod yr holl staff sy'n gweithio gyda'r plant yn addas i wneud hynny.

### Argymhellion ar gyfer gwella

Gallai'r arweinwyr ystyried y canlynol:

- Cyfleoedd pellach i ddatblygu sgiliau hunangymorth y plant yn enwedig yn ystod prydau bwyd ac i blant iau, gwneud yn siŵr bod eu biceri ar gael iddynt pan fyddant yn sychedig wrth chwarae er mwyn helpu i ddatblygu annibyniaeth;
- rhoi hysbysiad yn y gegin i atgoffa'r staff am y gweithdrefnau diogelwch i'w dilyn o ran drws y gegin;
- gosod rhai o'r blychau teganau ar y llawr/o fewn cyrraedd y plant;
- adolygu'r gweithdrefnau golchi dwylo yn unol â *Chyfarwyddyd Cymru Gyfan ar Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer lleoliadau gofal plant (0-5 oed) Meithrinfeydd, Gwarchodwyr Plant a Grwpiau Chwarae: Canllaw Cymru Gyfan.* Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014)**;**
- rhoi mwy o wybodaeth yn y datganiad o ddiben, gan ddefnyddio'r is-benawdau yn safon un y *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Rheoleiddio Gofal Plant i blant hyd at 12 oed* - fel canllaw;
- ffurfioli goruchwyliaeth un i un a chadw cofnodion ysgrifenedig ar gyfer pob aelod o'r staff;
- ymestyn dealltwriaeth y plant o'r byd o'u hamgylch gan ystyried datblygu adnoddau amlddiwylliannol.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ddydd Iau 02 Awst 2018 rhwng:

9:20 am a 12.00 pm a 12:50 pm a 16:10 pm:

Gwnaethom y canlynol:

- arolygu sampl o ddogfennau, polisïau, ffeiliau tri aelod o staff a thri o gofnodion y plant;
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio adnodd Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI2) er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltu'r plant a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir, y teganau a'r adnoddau;
- siarad â'r plant, y staff, y person â chyfrifoldeb (a oedd ar wyliau yn swyddogol ond daeth i mewn am gyfnod byr yn y bore i siarad â'r arolygydd), yr unigolyn cyfrifol, y rhieni;
- rhoi adborth i'r unigolyn cyfrifol.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 2. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Nia Roberts** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Natalie Speiser** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **42** |
| **Ystod oedran y plant** | **O dan 12 oed** |
| **Oriau agor** | **O ddydd Llun i ddydd Gwener: 8:00 am – 18:00 pm.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **06 Mehefin 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu** | **02 Awst 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | ***Nod y gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg.*** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |